



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad dilynol o godio clinigol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1182A2019-20



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.wales.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Philip Jones.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi yn ei wasanaeth codio clinigol, ac mae ansawdd ei ddata wedi'i godio'n dda ar y cyfan. Er bod y defnydd o ddata wedi'i godio fel gwybodaeth fusnes heb ddatblygu digon, bu cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio blaenorol.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	5
Mae perfformiad codio clinigol yn dda ar y cyfan, er bod cywirdeb wedi dirywio ychydig	6
Mae pwysigrwydd codio clinigol wedi cael ei gydnabod trwy fuddsoddiad newydd, er bod y defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer gwybodaeth fusnes heb ddatblygu digon	8
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio blaenorol	9
Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith	10

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ein hargymhellion yn 2014	12
Atodiad 2 – Canlyniadau'r arolwg o Aelodau'r Bwrdd	19

Adroddiad Cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol¹.
- 2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG, ac fe'i defnyddir i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.
- 3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.
- 4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.
- 5 Canfuom hefyd fod cyrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt. Yn ogystal â hynny, nid oedd holl gyrrff y GIG yn deall pwysigrwydd codio clinigol i'w busnes o ddydd i ddydd.
- 6 Ym mis Hydref 2014, fe gyhoeddodd ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: 'Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol, ac roedd rhai o'r prosesau cysylltiedig yn gadarn, ond roedd angen iddo wneud mwy i fynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar gywirdeb ac amseroldeb. Yn fwy penodol canfuom fel a ganlyn:
 - er bod pwysigrwydd codio clinigol yn cael ei gydnabod i ryw raddau, roedd angen gwneud mwy i godi proffil y gwaith a chanolbwyntio ar ffactorau ehangach a oedd yn effeithio ar ei gywirdeb;
 - roedd rhai agweddau ar y broses godio clinigol yn gadarn, ond roedd ymgysylltu clinigol yn ddiffygiol, ac roedd ansawdd cofnodion meddygol yn amrywio'n sylweddol; ac

¹ Ar gyfer diagnosisau, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- roedd data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio yn briodol, ac roedd safon y data yn dda yn gyffredinol, er bod rhywfaint o'r gwaith codio clinigol yn anghywir a bod amseroldeb wedi gwaethygu. Roedd angen gwneud y Bwrdd yn ymwybodol o oblygiadau hyn.
- 7 Fe wnaethom nifer o argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar yr angen i:
- wella gwaith rheoli cofnodion meddygol;
 - cryfhau adnoddau codio clinigol;
 - datblygu'r broses o ymgysylltu â'r Bwrdd a'r adnoddau ar gyfer hynny ymhellach; a hefyd
 - cryfhau'r modd yr ymgysylltir â staff meddygol.
- 8 Fel rhan o gynllun archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 2018, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr [Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014](#) ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny.
- 9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:
- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
 - gofyn i'r Bwrdd Iechyd hunanasesu ei gynnydd hyd yma;
 - dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
 - ceisio barn aelodau'r bwrdd² ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
 - cyfweld â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae [Atodiad 1](#) yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

Ein canfyddiadau


- 11 Ein casgliad yw bod y Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi yn ei wasanaeth codio clinigol, a bod ansawdd ei ddata wedi'i godio'n dda ar y cyfan. Er bod y defnydd o ddata wedi'i godio fel gwybodaeth fusnes heb ddatblygu digon, bu cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio blaenorol.

² Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb allan o 19 o ymatebion posibl.

Mae perfformiad codio clinigol yn dda ar y cyfan, er bod cywirdeb wedi dirywio ychydig

- 12 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.
- 13 Bob blwyddyn, mae cyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd**. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbytai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel yn flaenorol. Yn seiliedig ar y data hwn, dengys **Arddangosyn 1** fod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi aros yn agos iawn at y targed cyflawnrwydd. Mae hefyd wedi bod yn gyson uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Arddangosyn 1: y ganran o'r holl gyfnodau a godiwyd o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru

- 14 Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnwn ni am y sefyllfa o ran yr ôl-groniad ym mis Mawrth 2018. Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ôl-groniad bach o 1.08% (2,261) o'r cyfnodau gorffenedig meddygon ymgynghorol. Dros y tair blynedd ddiwethaf aeth yr ôl-groniad yn llai cyn cynyddu ychydig drachefn.

15 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol. Maent yn gwneud hyn trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio a gwirio'r wybodaeth yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion i asesu cywirdeb. Mae disgwyl i gyrff y GIG ddangos gwelliant blynyddol yn eu cywirdeb. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, dengys **Arddangosyn 2** fod cywirdeb y Bwrdd Iechyd wedi gwella (cywirdeb o 88.7% yn 2014-15 o'i gymharu â 91.21% yn 2018-19) dros amser er y bu dirywiad bach yn 2018-19.

Arddangosyn 2: canran y cyfnodau a godiwyd yn gywir



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru

* Sylwer, oherwydd capasiti o fewn tîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, bod adolygiad sengl o gywirdeb wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau 2015-16 a 2016-17.

Mae pwysigrwydd codio clinigol wedi cael ei gydnabod trwy fuddsoddiad newydd, er bod y defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer gwybodaeth fusnes heb ddatblygu digon

- 16 Yn flaenorol, canfuom nad oedd pob un o gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes a'u bod yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth. Er enghraifft, i gynllunio a monitro gwasanaethau, lle gellir defnyddio codio i:
 - asesu nifer y cleifion sy'n dilyn llwybrau clinigol; a
 - darparu data cymharol ynghylch gweithgarwch i arfarnu cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.
- 17 Mae proffil codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn sylweddol uwch yn y cyfnod ers ein hadolygiad blaenorol. O ganlyniad, mae wedi cael ei flaenoriaethu'n llwyddiannus ar gyfer gwella. Roedd y cyfarwyddwr meddygol blaenorol yn arbennig o allweddol o ran amlygu'r heriau i godio clinigol. Trefnwyd fod adnoddau ychwanegol ar gael o 2016 i fynd i'r afael â materion staffio mewn perthynas â chodio.
- 18 Er bod ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chodio clinigol yn uwch o lawer, mae'r defnydd o ddata wedi'i godio ar gyfer gwybodaeth fusnes yn dal heb ddatblygu digon. Fodd bynnag, ceir eglurder ynghylch natur a maint y buddsoddiad y mae ei angen mewn datrysiadau digidol ar gyfer codio clinigol.
- 19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau buddsoddiad ar gyfer moderneiddio'r broses o olrhain nodiadau achosion gan ddefnyddio system Adnabod Amledd Radio (RFID). Amcan y prosiect fydd gwella'r problemau clinigol a logistaidd sy'n ymwneud â chofnod iechyd papur gan hefyd foderneiddio a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Cofnodion Iechyd. Bydd y datrysiad yn darparu tagiau RFID ar gyfer cofnodion aciwt a system Ffeilio ar sail Lleoliad gan ddefnyddio cyfleuster sganio cod bar a'r gallu i adnabod lleoliad cofnodion â synwryddion sefydlog. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i gofnodion gael eu holrhain, eu canfod a'u darparu yn rhwydd pan fo'u hangen gan staff codio a chlinigwyr.
- 20 Mae'r Bwrdd Iechyd yng nghramau cynnar iawn proses i fabwysiadu gofal iechyd seiliedig ar werthoedd. Mae papur a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe wedi cael ei gytuno a bydd yn cael ei gyllido am ddwy flynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod diffyg data ar ddeilliannau a chostau ar hyn o bryd, y mae'r ail o'r rhain yn gysylltiedig â chodio clinigol. Bydd angen yr wybodaeth hon er mwyn symud gofal iechyd seiliedig ar werthoedd ymlaen.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio blaenorol

21 Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

Arddangosyn 3: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'u disodli
13	5	6	2	-

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 22 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014, er ein bod wedi adnabod nifer o rai sy'n hwyr.
- 23 Mae cyd-ddibyniaeth timau codio clinigol a staff cofnodion meddygol wedi cael ei hadnabod ac yn cael ei hadlewyrchu mewn strwythur sefydliadol newydd a thrwy arferion diwygiedig. Mae safon ac argaeledd y nodiadau achosion hyn wedi gwella ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod safonau rheoli cofnodion cydnabyddedig yn cael eu cynnal ar lefel wardiau. Serch hynny, mae'r defnydd o ffeiliau dros dro yn dal i fod yn broblem.
- 24 Buddsodwyd yn sylweddol mewn codio clinigol er mwyn mynd i'r afael yn barhaol â diffygion cynharach mewn perfformiad codio. Mae'r gwaith wedi cael ei lywio gan y broses o roi cynllun gwella manwl a chadarn ar waith. Aeth rhan gyntaf y buddsoddiad i'r afael â materion yn y tymor canolig a hir ac roedd yn seiliedig ar fuddsoddiad blynyddol cylchol o £170,000 i gynyddu niferoedd y staff. Roedd yr ail ran yn seiliedig ar gyllid anghylchol o £255,000 i glirio'r ôl-groniad yn 2016-17 trwy ddefnyddio staff codio asiantaeth.
- 25 Bu peth hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd codio clinigol. Mae'r Bwrdd wedi cael copi o ganfyddiadau adroddiad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar gywirdeb codio clinigol yn flaenorol. Hefyd, mae diweddariadau am gyflawnrwydd codio yn cael eu darparu'n fisol ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ac ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, ac yn rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn darparu adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Bwrdd ac sy'n cynnwys materion codio clinigol.
- 26 Mae gwybodaeth am godio clinigol yn cael ei darparu ar gyfer staff meddygol iau fel rhan o'r rhaglen sefydlu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu dogfennau ar ymwybyddiaeth o godio a all gael eu rhoi i staff meddygol gan reolwyr codio. Hoffai'r Prif Swyddog Gwybodaeth Feddygol weld strwythur llywodraethu gwybodaeth glinigol addas i'w ddiben er mwyn helpu i sicrhau safonau codio gwell

ymhlith staff meddygol. Ceir cydnabyddiaeth nad oes digon o glinigwyr wedi cymryd rhan yn y Grŵp Cyfeirio Gwybodaeth Glinigol a bod angen ei gryfhau.

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

- 27 Wrth wneud y gwaith hwn nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ychwanegol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn [Arddangosyn 4](#).

Arddangosyn 4: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith neu sy'n hwyr

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto	
Rheoli Cofnodion Meddygol	
A1	Gwella'r gwaith o reoli cofnodion meddygol i sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">b) rhoi'r gorau i ddefnyddio cofnodion dros dro, gan gynnwys pocedi plastig, a sicrhau bod ffeiliau'n cael eu cynnwys ym mhrif gofnod y claf;c) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (RCP) ledled y Bwrdd lechyd a phwysigrwydd cofnodion o ansawdd da; ace) gwella cydymffurfiaeth â'r adnodd olrhain cofnodion meddygol yn y Systemau Gweinyddu Cleifion (PAS).
Adnoddau Codio Clinigol	
A2	Cryfhau'r gwaith o reoli'r timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">b) mynd ati gyda staff i archwilio sut y gellir datblygu cyfarfodydd timau codio clinigol ar y cyd i sicrhau bod staff yn credu bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol.
Ymgysylltu â'r Bwrdd	
A3	Datblygu'r broses dda bresennol o ymgysylltu â'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, ac ar gyfer prosesau rheoli ehangach y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">a) darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd i godi eu hymwybyddiaeth o godio clinigol a'r graddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad, ac eithrio data ar farwolaethau.

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto

Ymgysylltu â staff meddygol

- A4 Cryfhau prosesau ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod cyfraniad cadarnhaol meddygon at y broses godio clinigol yn cael ei gydnabod. Dylai hyn gynnwys:
- sicrhau cysondeb wrth ddarparu hyfforddiant ar godio clinigol ar gyfer staff meddygol ledled y Bwrdd Iechyd;
 - atgyfnerthu pwysigrwydd cwblhau crynodebau rhyddhau cleifion yn amserol; ac
 - gwella ymgysylltu clinigol â'r gwaith o ddilysu data clinigol wedi'i godio.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 1

Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ein hargymhellion yn 2014

Arddangosyn 5: asesu cynnydd

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Rheoli cofnodion meddygol			
A1 Gwella'r gwaith o reoli cofnodion meddygol i sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:			
a) rhoi camau ar waith i sicrhau bod cofnodion meddygol yn cael eu rhyddhau i dimau codio clinigol cyn gynted ag y bo modd ar ôl rhyddhau cleifion o Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton.	Ionawr 2015	Wedi'i roi ar waith	<p>Mae argaeledd nodiadau achosion ar gyfer codio wedi gwella'n sylweddol. Adnabu'r Bwrdd Iechyd nifer o faterion mewn perthynas â rheoli'r nodiadau achosion a oedd yn effeithio ar y gwasanaeth codio a diogelwch gofal cleifion.</p> <p>Er mwyn mynd i'r afael â'r cyd-ddibyniaethau hyn cafodd yr adrannau eu huno yn 2016/17. Maent ill dwy yn rhan o'r un strwythur rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Wybodeg, a arweinir gan y Pennaeth Cofnodion Digidol a Sicrwydd Gwybodaeth. Ers 2014 mae materion mewn perthynas ag argaeledd nodiadau achosion a gwybodaeth goll wedi bod yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd cadarn trwy'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Cafodd achos busnes i foderneiddio'r llyfrgell cofnodion iechyd a gwneud y cofnod iechyd papur yn electronig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016, a'i gymeradwyo wedyn. Dros amser bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl trosglwyddo cofnodion meddygol papur presennol i fformat electronig, sydd wedyn yn gallu cael ei weld yn y man lle rhoddir gofal clinigol. Bydd clinigwyr yn gallu cael mynediad at hanes cleifion mewn amser real,</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			<p>gan wella'r profiad cyffredinol ar gyfer cleifion, a diogelwch cleifion. Bydd hefyd yn lleihau'r gost, y risg a'r anghyfleustra sy'n gysylltiedig â gofyn am gofnodion meddygol papur a'u cludo ar draws safleoedd lluosog.</p> <p>Bydd y cynnig hefyd yn helpu i newid y ffordd y caiff y gwasanaeth Cofnodion lechyd ei redeg. Bydd yn moderneiddio'r ddarpariaeth trwy gyflwyno proses RFID ar gyfer tagio nodiadau achosion papur. Mae'r Bwrdd lechyd o'r farn mai'r datrysiaid i'r broblemau cynhenid gyda chofnodion clinigol papur yn y pen draw fydd argaeledd cofnod clinigol electronig llawn ar gyfer cleifion. Mae ei Gynllun Strategol Amlinellol (3 Blynedd) ar gyfer Gwybodeg yn nodi'r prosiectau sy'n ofynnol i gyflawni trefniadau gweithio di-bapur mewn meysydd clinigol.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld y bydd rhoi'r prosiect moderneiddio hwn ar waith yn arwain at fanteision sylweddol o safbwynt ariannol, cynhyrchiant ac ansoddol. Byddai o bosibl yn cyflawni newid sylweddol mewn arferion casglu gwybodaeth glinigol a rheoli cofnodion clinigol sydd, yn ei dro, yn cael ei ystyried yn gam cyntaf hollbwysig tuag at sefydliad sydd wedi'i drawsnewid yn ddigidol.</p>
b) rhoi'r gorau i ddefnyddio cofnodion dros dro, gan gynnwys pocedi plastig, a sicrhau bod ffeiliau'n cael eu cynnwys ym mhrif gofnod y claf.	Yn barhaus	Ar y gweill	Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yn y dull o fynd ar drywydd safonau cofnodion iechyd, dywedodd staff codio eu bod yn dal i gael ffeiliau dros dro ac amlenni plastig.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
c) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (RCP) ledled y Bwrdd Iechyd a phwysigrwydd cofnodion o ansawdd da.	Mehefin 2014	Hwyr	Mae peth gwaith archwilio mewn perthynas â safonau Coleg Brenhinol y Meddygol wedi cael ei wneud ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, ond dim ond mewn perthynas ag arbenigedd meddygaeth yn Ysbyty Treforys. Nid yw'n glir a yw'r safonau'n cael eu hatgyfnerthu mewn lleoliadau eraill yn y Bwrdd Iechyd.
d) darparu hyfforddiant ar gyfer clercod ward a staff eraill ynglŷn â'u cyfrifoldebau ar gyfer cofnodion meddygol.	Medi 2014	Wedi'i roi ar waith	<p>Mae'r Uwch Dîm Rheoli Cofnodion Iechyd wedi sefydlu perthnasoedd gweithio agos â Chynrychiolwyr Darparu Gwasanaethau a Rheolwyr Ansawdd a Diogelwch. Y diben yw mynd i'r afael â phrosesau gweinyddol gwael ac anniogel ar wardiau mewn perthynas â rheoli cofnodion a rhoi'r gorau i'r prosesau hynny.</p> <p>Mae'r tîm cofnodion iechyd wedi defnyddio adnoddau presennol i sefydlu rhaglen archwilio a gwella cadarn ar gyfer cofnodion iechyd. Mae'n mynd i'r afael â risg ac yn ceisio dileu arferion gwael o ran rheoli cofnodion.</p> <p>Cyflwynir adroddiadau deufisol ar gynnydd i'r Grŵp Sicrwydd a Dysgu. Mae'r rhain yn crynhoi'r gwelliannau a wnaed hyd yma, yn amlygu camau gweithredu sy'n dal heb eu cymryd ar draws yr Unedau Darparu Gwasanaethau, ac yn manylu ar y cynnydd cyffredinol a wnaed o ran arferion rheoli cofnodion. Darperir adborth hefyd ar gynnydd a'r argymhellion a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn Archwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a gynhaliwyd ym mis Medi 2016.</p> <p>Mae'r arweinydd gwella gwasanaeth codio clinigol yn gweithio'n rhagweithiol gyda wardiau i ofyn i staff beth alla staff codio ei wneud i'w helpu.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
e) gwella cydymffurfiaeth â'r adnodd olrhain cofnodion meddygol yn y Systemau Gweinyddu Cleifion (PAS).	Ionawr 2015	Ar y gwell	Dywedodd staff codio fod y defnydd o'r offeryn tracio cofnodion meddygol yn y Systemau Gweinyddu Cleifion yn dal i fod yn anghyson.
Adnoddau codio clinigol			
A2 Cryfhau'r gwaith o reoli'r timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:			
a) archwilio a mynd i'r afael â'r rhesymau dros oedi wrth godio cyfnodau gofal yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton ar ôl i'r timau perthnasol dderbyn cofnodion meddygol.	Hydref 2014	Wedi'i roi ar waith	<p>Yn 2016, fe fuddsoddodd y Bwrdd Iechyd yn sylweddol yn yr adran Codio Clinigol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg perfformiad sylweddol ym maes codio clinigol ar y pryd.</p> <p>Roedd dwy ran i'r buddsoddiad. Roedd y gyntaf yn mynd i'r afael â materion yn y tymor canolig a hir ac yn seiliedig ar fuddsoddiad blynyddol cylchol o £170,000 i gynyddu niferoedd y staff. Y nod oedd cyrraedd y lefelau cynhyrchiant gofynnol unwaith yr oedd staff yn gymwys ac wedi'u hyfforddi. Cafodd staff codio ychwanegol eu recriwtio ac fe gynhaliwyd adolygiad o'r adran.</p> <p>Roedd yr ail ran yn seiliedig ar gyllid anghylchol o £255,000 i glirio'r ôl-groniad yn 2016-17 trwy'r defnydd o staff codio asiantaeth.</p> <p>Cafodd y gwaith uchod ei lywio gan y broses o roi cynllun gwella manwl a chadarn ar waith. Rhoddwyd cynlluniau ar waith i ddileu'r ôl-groniad erbyn mis Mehefin 2017 ac fe sefydlwyd prosesau wythnosol i fonitro ac adrodd ar gyflawni llwyddiannus.</p> <p>Cafodd y cynllun gwella'i gynnal yn ystod 2017-18 ac fe ddaliodd yr Adran Codio Clinigol i adolygu ffyrdd o weithio, strwythurau a phrosesau i gynyddu i'r eithaf effeithiau'r cyllid uwch a gafwyd yn 2016. Mae'r cyfnod wedi bod yn gyfnod trosiannol, gan bod y cyllid wedi arwain at recriwtio staff ychwanegol a oedd yn golygu bod</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			angen hyfforddi a datblygu cyn bod yr adran yn gallu cynyddu i'r eithaf fanteision yr adnoddau ychwanegol. Yn ystod 2018, fe wnaed rhagor o waith i wella'r cymorth rheoli a neilltuir i'r adran codio clinigol. Yn ogystal â'r ddwy rôl band 6 cymwysedig bresennol, mae swydd band 7 wedi cael ei hadnabod a'i hysbysebu.
b) mynd ati gyda staff i archwilio sut y gellir datblygu cyfarfodydd timau codio clinigol ar y cyd i sicrhau bod staff yn credu bod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol.	Ionawr 2015	Ar y gweill	Nid yw staff codio'n cwrdd yn chwarterol, ac mae cyfarfodydd ar draws safleoedd yn ddiwyddiadau prin. Er hynny, fe gymerodd y Pennaeth Cofnodion Digidol a Sicrwydd Gwybodaeth gam cadarnhaol iawn pan ddaeth â'r holl dimau godio ynghyd at ddiben cynnal grŵp ffocws fel rhan o'r adolygiad hwn. Ar y dydd dywedodd nifer o aelodau o staff cymaint yr oeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle.
c) atgyfnerthu'r gwaith y dylai staff Band 4 ei wneud er mwyn monitro a gwirio gwaith eraill.	Ebrill 2015	Wedi'i roi ar waith	Fel a grybwyllwyd uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi swm sylweddol mewn cynyddu adnoddau staff codio ac i ddatblygu ei brosesau. Mae hyn wedi darparu capasiti ychwanegol ar gyfer mentora a gwirio gwaith o fewn y strwythur staffio, ac nid dim ond ar lefel Band 4.
Ymgysylltu â'r Bwrdd			
A3 Datblygu'r broses dda bresennol o ymgysylltu â'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, ac ar gyfer prosesau rheoli ehangach y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys:			
a) darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd i godi eu hymwybyddiaeth o godio clinigol a'r graddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad, ac eithrio data ar farwolaethau.	Ebrill 2015	Ar y gweill	Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth fel rhan o weithgarwch datblygu yn y Bwrdd Iechyd gan yr Arweinydd Archwilio yn 2015 ar Godio Clinigol i godi proffil a disgrifio'r cyd-destun a'r rhesymeg dros fuddsoddiad ychwanegol. Roedd y cyflwyniad hwn yn ffactor a arweiniodd at sicrhau buddsoddiad.

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			Ni welsom dystiolaeth bod unrhyw weithredu pellach wedi bod yn y maes hwn, ar gyfer aelodau presennol nac aelodau newydd o'r Bwrdd.
b) gwella gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd am gywirdeb codio clinigol.	Mai 2015	Wedi'i roi ar waith	<p>Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth am gywirdeb codio clinigol o bryd i'w gilydd.</p> <p>Hefyd, darperir diweddariadau ar gyflawnrwydd codio yn fisol ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Bwrdd Gweithredol, ac yn rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn darparu adroddiad blynyddol a gyflwynir i'r Bwrdd ac sy'n cynnwys materion codio clinigol.</p>
Ymgysylltu â staff meddygol			
A4 Cryfhau prosesau ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod cyfraniad cadarnhaol meddygon at y broses godio clinigol yn cael ei gydnabod. Dylai hyn gynnwys:			
a) sicrhau cysondeb wrth ddarparu hyfforddiant ar godio clinigol ar gyfer staff meddygol ledled y Bwrdd Iechyd.	Chwefror 2015	Ar y gweill	<p>Mae gwybodaeth am godio clinigol yn cael ei darparu ar gyfer staff meddygol iau fel rhan o'r rhaglen sefydlu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu dogfennau ar ymwybyddiaeth o godio a all gael eu rhoi i staff meddygol gan reolwyr codio.</p> <p>Hoffai'r Prif Swyddog Gwybodaeth Feddygol weld strwythur llywodraethu gwybodaeth glinigol addas i'w ddiben. Mae canllawiau proffesiynol yn awgrymu y dylai gynnwys rhwng pedwar a chwech o bobl a'r rheiny wedi'u dosbarthu ar draws sefydliad sydd o'r un maint â'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Ceir cydnabyddiaeth nad oes digon o glinigwyr wedi cymryd rhan yn y Grŵp Cyfeirio Gwybodaeth Glinigol a bod angen ei gryfhau.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
			Yn y dyfodol, bydd gan y cyfarwyddwr meddygol newydd dri dirprwy gyfarwyddwr meddygol, o'i gymharu ag un yn unig yn flaenorol. Gallai hyn greu capasiti parhaus i ganolbwyntio ar faterion gwybodaeth glinigol a chodio clinigol, ac i sicrhau y cyflwynir dull cyson o ddarparu hyfforddiant codio clinigol ar gyfer staff meddygol.
b) atgyfnerthu pwysigrwydd cwblhau crynodebau rhyddhau cleifion yn amserol.	Rhagfyr 2014	Hwyr	Dywedodd staff codio clinigol fod ansawdd ac amseroldeb crynodebau rhyddhau'n dal i amrywio.
c) gwella ymgysylltu clinigol â'r gwaith o ddilysu data clinigol wedi'i godio.	Medi 2014	Ar y gweill	Mae codyddion clinigol a rheolwyr codio'n ymgysylltu â chlinigwyr a nyrsys arbenigol mewn perthynas â dilysu'r data codio, ond nid yw'n glir pa mor gyffredin yw'r ymgysylltu.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 2

Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd

Cafwyd ymatebion oddi wrth 14 aelod o'r bwrdd yn y Bwrdd Iechyd a cheir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

Arddangosyn 6: cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

	Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?		Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Cwbl fodlon	1	6	-	5
Bodlon	5	34	7	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	7	46	7	46
Anfodlon	1	10	-	4
Cwbl anfodlon	-	-	-	1
Cyfanswm	14	96	14	96

Arddangosyn 7: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gadernid codio clinigol

	Pa mor ymwybodol ydych chi o'r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ymwybyddiaeth lawn	3	26
Peth ymwybyddiaeth	6	50
Ymwybyddiaeth gyfyngedig	5	17
Dim ymwybyddiaeth	-	3
Cyfanswm	14	96

Arddangosyn 8: lefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

	Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol?		Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ydw	2	8	13	77
Nac ydw	12	84	1	19
Cyfanswm	14	92	14	96

Arddangosyn 9: Sylwadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr o'r Bwrdd Iechyd

- Mae ein tîm codio clinigol yn perfformio'n dda gan bod yr adnodd cywir yn cael ei ddyrannu iddynt bellach. Maent wedi gwneud yr hyn y dywedasant y byddent yn ei wneud pe baent yn cael yr offer yr oedd eu hangen arnynt. Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn llawer mwy hyderus, trwy waith archwilio, ynglŷn ag amseroldeb ac ansawdd codio. Fodd bynnag, nid ydym yn codio'r mwyafrif o weithgarwch gofal eilaidd (cleifion allanol) felly nid oes syniad gennym beth sy'n digwydd yn y "rhan honno o'r busnes", ac nid ydym yn gweld rhyw lawer o ddata o ofal sylfaenol ychwaith. Mae'r gweithgarwch codio i gyd yn ôl-weithredol ac mae'n dibynnu ar yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn y cofnod papur. Rhaid i ni symud i sefyllfa lle mae'n cael ei gofnodi fel cynnyrch darparu gofal ac mor agos at amser real â phosibl. Mae'r diffyg system gwybodaeth glinigol i ddarparu data wedi'i godio ar weithgarwch ar gyfer yr Adran Achosion Brys yn faes enfawr o anwybodaeth i ni.
- Nid wyf wedi clywed codio clinigol yn cael ei grybwyll ar lefel pwyllgor na'r Bwrdd yn y [cyfnod] yr wyf fi wedi bod yn rhan ohonynt.
- Mae rhagor o wybodaeth wastad yn ddefnyddiol. Mae codio clinigol yn anodd ac ymddengys fod rhyw broblem gyda mewnbynnu data (sydd wedi gwella'n fawr) a diffiniadau/dehongliadau gan y codyddion. Mae wastad angen i'r rhai sy'n gwneud nodiadau clinigol fod yn glir iawn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei gofnodi fel bod y codyddion yn gallu cadarnhau o fewn y system ddata.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru